# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

# (302)v5

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu cyllid yn ôl o'r West London Vocational Training College yn sgil yr ymchwiliad parhaus i honiadau ehangach o dwyll?

EAQ(4)0663(ESK)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Metro

(30 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Polisi Caffael - Ysgogi Gwelliant ac Ymgysylltu â Busnesau

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2016 Ymlaen

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, ar y rhaglen i ddileu TB

(30 munud)

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Swyddfa Brisio sy'n deillio o'r Bil Menter

(15 munud)

**NDM5892 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Menter, sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth am ardrethi annomestig gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Hydref 2015 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Dogfennau Ategol**

Bil Menter Llywodraeth y DU (Saesneg yn unig)
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Busnesau Bach sy'n deillio o'r Bil Menter

(15 munud)

**NDM5891 Edwina Hart (Gŵyr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Menter sy'n ymwneud

â'r Comisiynydd Busnesau Bach, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Hydref 2015 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Dogfennau Ategol**

Bil Menter Llywodraeth y DU (Saesneg yn unig)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2)

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes

## 9 Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

(15 munud)

**NDM5895 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2015.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

## 10 Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015

(15 munud)

**NDM5894 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2015.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Tachwedd 2015 i'w hateb ar 1 Rhagfyr 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith yr adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)2613(FM)**W**

**2. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y GIG yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2597(FM)

**3. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith bosibl adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar lywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)2611(FM)

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd gwasanaethau bws ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2598(FM)

**5. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu annog meddygon teulu i weithio yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)2602(FM)

**6. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am ddyfodol S4C? OAQ(4)2606(FM)**W**

**7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa neges y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chyfleu i uwchgynhadledd newid hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ym Mharis? OAQ(4)2612(FM)

**8. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol? OAQ(4)2608(FM)

**9. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am brosiectau cyfalaf yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)2607(FM)

**10. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei chanllawiau ar dryloywder ac atebolrwydd o fewn llywodraeth leol yn cael eu dilyn? OAQ(4)2600(FM)

**11. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth ym Mhontypridd ac ardal Taf Elái? OAQ(4)2604(FM)

**12. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru parthed arolygu safonau cartrefi nyrsio? OAQ(4)2609(FM)**W**

**13. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau ynni cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)2605(FM)

**14. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y bydd ei chynigion ar gyfer llywodraeth leol yn ei chael ar ofal cymdeithasol? OAQ(4)2610(FM)

**15. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa waith ymgynghori y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ymgymryd ag ef mewn perthynas â'r ardaloedd cynnyrch ehangach is a ddefnyddir yn y cyfrifiad? OAQ(4)2596(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]

Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015 a dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015
Toriad: Dydd Llun 14 Rhagfyr 2015 - Dydd Sul 10 Ionawr 2016
Dydd Mawrth 12 Ionawr 2016 a dydd Mercher 13 Ionawr 2016
Dydd Mawrth 19 Ionawr 2016 a dydd Mercher 20 Ionawr 2016

Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyllideb Ddrafft 2016-17 (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015 (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)
- Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Casglu a Rheoli Treth (Cymru) (60 munud)
- Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Casglu a Rheoli Treth (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 12 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Cynhyrchu Ynni Lleol (30 munud)
- Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Cynnig Atodol Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles a Gwaith sy'n ymwneud â darpariaethau/diwygiadau i'r Bil ynghylch y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (30 munud)
- Cynnig Atodol Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tai a Chynllunio sy'n ymwneud â darpariaethau yn y Mesur ynghylch rhyddfreinio ac ymestyn lesddaliadau hir (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2014-15 (60 munud)

**Dydd Mercher 13 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

- Cwestiynau i’r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Bil Cymru drafft (180 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 19 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016 (15 munud)
- Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014-2015 (60 munud)

**Dydd Mercher 20 Ionawr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Deddfu yng Nghymru (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)